# Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 10 Medi 2025

**Yn Bresennol (o bell)**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd C George, Ms H Gwenllian, y Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr J Hogg MBE, Mrs S Hoss, y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr R Plummer, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd V Thomas, y Cynghorydd A Tinley, a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Kate Attrill (Rheolwr Rheoli Datblygu), Lynwen Davies (Cyfieithydd yr y Pryd), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Mike Kent (Swyddog Monitro), Gayle Lister (Prif Gynllunydd, Polisi Strategol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Michel Regelous (Swyddog Polisi y Parc Cenedlaethol a Morol), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu).

[Cyfarfod Ar-lein, 10.00am – 11.40am]

**1. Gair o groeso**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ms Helen Gwenllian ac i Mr John Hogg MBE, a'u cyflwyno fel yr Aelodau newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**3. Datgan Buddiannau**

Datganodd y Cynghorydd V Thomas fuddiant yn adroddiad 39/25, Mabwysiadu Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Cei Cresswell.

**Nodwyd.**

**4. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2025 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock MBE, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2025.

**5. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

O ran cam gweithredu 914, yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, cadarnhaodd y Prif Weithredwr, oherwydd bod y Pennaeth Gwasanaethau Pobl wedi cymryd cyfnod estynedig o absenoldeb, y byddai'r adolygiad yn cael ei ohirio tan iddi ddychwelyd i'r Awdurdod gan iddi fod yn rhan annatod o'r broses adolygu Cyflogau a Graddfeydd. Gofynnodd yr Aelodau am i'w dymuniadau gorau gael eu trosglwyddo i'r Swyddog.

**Nodwyd.**

**6. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i hysbysu'r Aelodau am ganlyniad Adolygiad Barnwrol yn ddiweddar a ddygwyd yn erbyn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dywedwyd bod y barnwr wedi dyfarnu yn erbyn yr Awdurdod ar ddau gyhuddiad ac wedi gwrthod y tri chyhuddiad oedd yn weddill, felly roedd yr Awdurdod yn y broses o geisio cyngor cyfreithiol ar y ffordd orau i fwrw ymlaen. Pwysleisiodd y Cadeirydd y byddai cyfle gan yr Aelodau i gyflwyno eu sylwadau ar y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Pennaeth Datgarboneiddio am ddiweddariad diweddar ar y gwaith o ailddatblygu ystafell Bwyllgor yr Awdurdod, a ddosbarthwyd drwy’r e-bost, a thynnodd sylw at y ffaith y dylai cyfarfodydd wyneb yn wyneb ailgychwyn yn y flwyddyn newydd, cyn belled â bod y gwaith yn parhau i fynd rhagddo yn ôl yr amserlen.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau/ cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Sawl cyfarfod gydag Aelodau’r Awdurdod i gynnal yr Adolygiadau o Ddatblygiad Personol ac i ddod yn fwy cyfarwydd â’r Aelodau a’u wardiau.
- Sioe Sir Benfro lle'r oedd gan yr Awdurdod stondin a lle cynhaliwyd sawl digwyddiad i hyrwyddo’r Cynllun Ffermio Bro.
- Cyfarfod cyntaf y Panel Ffermio Bro, lle penderfynwyd ar y rhai cyntaf i dderbyn grantiau.
- Cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i drafod maetholion a chyflwr yr ardaloedd cadwraeth arbennig morol oedd yn bryder i adran gynllunio yr Awdurdod.
- Cyfarfod â Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro am gyflwyniad ffurfiol a chyfle i drafod pwyntiau o ddiddordeb cyffredin.
- Cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i drafod penodi’r Prif Swyddog Gweithredu ac ynghylch strategaethau buddsoddi.

Cadarnhaodd y Dirprwy Gadeirydd ei bod wedi mynychu cyfarfod is-bwyllgor Cynllunio Strategol y Cydbwyllgor Corfforaethol a dywedodd mai'r prif ffocws oedd cyflogi Swyddog i gyflwyno'r cytundeb cyflawni ar y cyd ar draws pob awdurdod cynllunio yn y rhanbarth. Yn ogystal, dywedodd y Dirprwy Gadeirydd ei bod wedi mynychu'r is-bwyllgor Llesiant Economaidd a Datblygu Economaidd Rhanbarthol lle trafodwyd y cynllun cyflawni economaidd.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Brian Southern, Arweinydd y Tîm Gwasanaethau Graffeg, am ei gyfraniad i'r Awdurdod wrth iddo agosáu at ddathlu 40 mlynedd o weithio i'r Awdurdod.

**Nodwyd.**

**7. Penodi Aelodau**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod llefydd gwag ar y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn dilyn ymadawiad Dr R Heath-Davies a Mrs J James.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** penodi Ms H Gwenllian a Mr J Hogg MBE ar y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

Yn ogystal, cadarnhaodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd S Alderman wedi mynegi diddordeb mewn cynrychioli'r Awdurdod ar Bwyllgor Ymgynghorol Porthladd Aberdaugleddau.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd S Alderman yn gynrychiolydd yr Awdurdod ar Bwyllgor Ymgynghorol Porthladd Aberdaugleddau.

**Nodwyd.**

[Ymunodd Mrs S Hoss â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**8. Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 3**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y CDLl 3 newydd i Lywodraeth Cymru i'w gytuno. Dywedwyd bod y cytundeb cyflawni drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, a bod tri ymateb wedi dod i law oedd yn ymwneud ag ymgysylltu, gor-ddibyniaeth ar dechnoleg gwybodaeth, gor-ddibyniaeth ar Gynghorau Tref a Chymuned, a chefnogaeth i gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau lleoedd. Amlinellodd y Swyddog yr amserlen ar gyfer y CDLl gyda manylion y gwahanol gamau ac amserlen pob cam.

Tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith y byddai paragraff 5.1.1 o'r Cytundeb Cyflawni yn cael ei ddiwygio i ddarllen fel a ganlyn: 'Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cytundeb Cyflawni drafft am gyfnod o 8 wythnos o 19 Mai i 14 Gorffennaf 2025. Roedd y swyddogion wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi Adroddiad ar yr Ymgynghori. Roedd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi ystyried yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a chymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni fis Medi 2025. Cytunwyd ar y Cytundeb Cyflawni gan Lywodraeth Cymru ar (y dyddiad i'w nodi unwaith y bydd wedi'i gytuno)'.

Roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'r Swyddogion am eu lefel o ymateb i'r sylwadau ddaeth o'r ymgynghoriad, gan i hyn amlygu gwerth ymgynghori a pha mor bwysig yw ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd.

Mynegodd Aelod bryder ynghylch y cyfyngiadau a osodwyd ar afonydd o ganlyniad i'r canllawiau diweddaraf ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol a'r effaith gafodd hyn ar gynnydd CDLl Cyngor Sir Penfro. Felly gofynnwyd a fyddai'r Awdurdod yn wynebu problemau tebyg. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddogion na fyddai niwtraliaeth maetholion yn cael fawr o effaith ar Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, fodd bynnag, roedd y tîm wedi bod yn cysylltu â phartneriaid perthnasol i sicrhau bod CDLl 3 yn gynllun y gellir ei gyflawni. Roedd y Swyddogion yn cydnabod y byddai rhai aneddiadau o fewn y Parc allai gael eu heffeithio, ond byddai'r Awdurdod yn edrych i weithio gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru a gydag Awdurdodau lleol eraill yn rhanbarthol.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw bwyntiau dysgu o'r broses hyd yn hyn, ac mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog, gan fod y tîm i gyd yn gymharol newydd, bod sawl pwynt dysgu wedi bod ar hyd y daith. Ychwanegwyd bod y tîm wedi bod yn siomedig â'r lefel isel o ymatebion i'r ymgynghoriad, ond roedd y Swyddogion yn archwilio ffyrdd o hyrwyddo'r broses o ymgysylltu yn y dyfodol, a bod croeso i'r Aelodau gyflwyno awgrymiadau ar y mater. Awgrymwyd y dylid ymgysylltu â'r cynghorau tref a chymuned yn gynnar yn y broses i ennyn ymwybyddiaeth, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Bu trafodaeth i ddilyn ynghylch ystyriaethau'r Gymraeg ar gyfer yr ymgynghori. Gofynnodd Aelod a oedd y Gymraeg wedi'i hystyried yng nghyd-destun dyraniadau tai, ac ymatebodd y Swyddog y byddai'r effaith bosibl ar y Gymraeg yn cael ei harchwilio ymhellach yng ngham nesaf y broses gan y byddai hyn wedyn yn llywio'r strategaeth. Nododd Aelod nad oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn gan y cyhoedd ynghylch ystyriaethau'r Gymraeg, ac ymatebodd y tîm bod hynny yn siom iddynt. Awgrymwyd bod y tîm yn estyn allan at grwpiau Cymraeg eraill yn y

gymuned megis Merched y Wawr, Menter Iaith, a Chymdeithas yr Iaith Sir Benfro i annog ymgysylltu, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock MBE, **penderfynwyd**:

a) cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gytuno.
b) nodi’r Adroddiad Ymgynghori.
c) nodi’r Asesiad Effaith Integredig.

**9. Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Cei Cresswell**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Cei Cresswell fel Canllaw Cynllunio Atodol. Ychwanegwyd y byddai hyn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Dywedwyd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cytuno ar y 23ain o Hydref 2024 i ddynodi Cei Cresswell yn ardal gadwraeth. Ychwanegwyd bod ymgynghoriad ac ymgysylltu cyhoeddus ar y dynodiad wedi'i gynnal dros gyfnod o wyth wythnos o 30 Gorffennaf i 23 Medi 2024, a derbyniwyd cyfanswm o 17 o ymatebion oedd i gyd yn cefnogi'r bwriad i ddynodi’r ardal yn ardal gadwraeth.

Canmolodd yr Aelodau y Swyddogion am eu gwaith a chytunwyd y byddai'r canllaw cynllunio atodol hwn yn gymorth i ddiogelu rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Diolchodd y Swyddogion i Linda Jones o BABB Architects am ei gwaith drwy gydol y broses.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock MBE, **penderfynwyd**:

a) mabwysiadu Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Cei Cresswell yn Ganllaw Cynllunio Atodol.
b) nodi'r Adroddiad Ymgynghori.
c) nodi'r Asesiad Effaith Integredig.
d) cyhoeddi taflen Errata i ddiweddaru’r Arfarniadau Ardal Gadwraeth presennol, gan amlygu’r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

**10. Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol 2025-2029: Fforwm Partneriaeth**

Cyflwynodd Swyddog Polisi’r Parc Cenedlaethol a'r Môr adroddiad oedd yn amlinellu'r Fforwm Partneriaeth arfaethedig fyddai'n gymorth i gyflawni, monitro ac adolygu'r Cynllun Partneriaeth 2025-29. Roedd awgrymiadau

am swyddogaethau, aelodaeth, trefniadau gweinyddol a chylch gorchwyl ar gyfer y Fforwm Partneriaeth wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, a chynigiwyd bod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynrychioli'r Aelodau yng nghyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth. Cadarnhawyd y byddai cynrychiolwyr y Swyddogion yn dod o blith yr Uwch Reolwyr ac arweinyddion pynciau perthnasol.

Tynnodd y Swyddog sylw at y gwahanol fodelau a ystyriwyd ar gyfer y Fforwm. Fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad mai'r model a ddefnyddiwyd ar gyfer Fforwm Eryri (a sefydlwyd i gyflawni Cynllun Partneriaeth Eryri) fyddai'r model mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Cyfeiriwyd at fanteision model Eryri, ac ychwanegwyd y gellid sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen dros dro pe bai angen.

Holodd Aelod ym mha fodd y byddai'r Fforwm yn cael ei fonitro i sicrhau bod y Fforwm yn parhau i fod yn werthfawr, yn effeithlon ac yn gynhyrchiol. Ymatebodd y Swyddog y byddai Fframwaith Partneriaeth yr Awdurdod yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer cyfranogiad yr Awdurdod mewn partneriaethau, ac y gallai cofnod o bresenoldeb fod yn arwydd o ddiddordeb y partneriaid yn y Fforwm. Nodwyd hefyd bod y Fframwaith Partneriaeth a'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a gyflwynir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ac a adroddir hefyd i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Dywedodd Aelod bod rhaid bod yn ofalus i beidio â dyblygu gwaith y partneriaethau hynny sydd eisoes yn bodoli.

Awgrymodd Aelod y dylid ychwanegu Plantlife UK at y rhestr o bartneriaid, a bod Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn cynnig model da o weithio mewn partneriaeth a gweithdrefnau. Cynigiwyd bod y cylch gorchwyl drafft yn cynnwys hyrwyddo nodau'r Parc Cenedlaethol fel un o'r dibenion, a bod manylion pellach ynghylch tymor y Cadeirydd yn cael eu cynnwys. Nodwyd yr awgrymiadau hyn gan y Swyddog.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd**:

a) cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Fforwm Partneriaeth i gynorthwyo i gyflawni'r Cynllun Partneriaeth 2025-2029 (i'w gytuno'n ddiweddarach gan y Fforwm Partneriaeth).
b) cytuno ar gynrychiolaeth yr Aelodau ar y Fforwm Partneriaeth.

**11. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddarlledu Cyfarfodydd**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn amlinellu'r ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd.

Dywedwyd bod Adran 46(1) a (2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar y prif gynghorau (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) i roi trefniadau ar waith ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor llawn fel y gallai aelodau o'r cyhoedd na fedrai fynychu'r cyfarfod yn bersonol weld a chlywed y trafodion wrth iddynt ddigwydd. Ychwanegwyd bod Adran 46(8) a (9) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddarlledu eu cyfarfodydd. Cadarnhaodd yr adroddiad bod Llywodraeth Cymru, ar 14 Gorffennaf 2025, wedi cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch a ddylid ymestyn y ddyletswydd ar y prif gynghorau i ddarlledu eu cyfarfodydd i gynnwys cyfarfodydd heblaw cyfarfodydd y cyngor llawn; a ddylid gosod dyletswydd ar Awdurdodau Tân ac Achub a/neu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i ddarlledu eu cyfarfodydd; ac a ddylid pennu cyfnod penodol i gadw'r recordiadau o'r cyfarfodydd a ddarlledwyd.

Dywedodd y Swyddog bod ymateb drafft yr Awdurdod yn nodi bod yr Awdurdod yn ffafrio gwneud darlledu cyfarfodydd yn wirfoddol yn hytrach na bod hynny yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth, a bod cyfnod o 12 mis i gadw'r recordiadau o'r cyfarfodydd a ddarlledwyd yn ddigon o amser i'r cyhoedd gael mynediad i'r darllediadau.

Cytunodd yr Aelodau bod ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad yn ddigon rhesymol o ystyried bod yr Awdurdod eisoes wedi mynd y filltir ychwanegol i sicrhau tryloywder a hygyrchedd a bod y cyfarfodydd eisoes yn cael eu cofnodi drwy'r cofnodion.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd C George, **penderfynwyd** cymeradwyo'r ymateb a awgrymwyd i'r ymgynghoriad.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 22/10/2025 heb eu diwygio.